# Amserlen Penderfyniadau

## Is-bwyllgor Trwyddedu

**I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD**

**Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 19 Medi 2019**

Gwnaeth y Is-bwyllgor Trwyddedu y penderfyniadau canlynol ar 18 Medi 2019, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: D Davies (Cadeirydd), H Thomas and T Suller

---

**LIC PAN 06/19**

**Penderfyniad**

**Adolygiad o Drwydded Safle dan Adran 51 Deddf Trwyddedu 2003 Ye Olde Bull Inn, Stryd Fawr, Caerllion, NP18 1AE**

Ystyriodd yr Is-bwyllgor y cais i adolygu'r drwydded safle ac ar ôl clywed tystiolaeth gan Gyngor Dinas Casnewydd wrth weithredu yn ei rôl fel Awdurdod Cyfrifol, a deiliaid y drwydded safle, penderfynodd y dylid atodi amodau i'r drwydded, ac felly, mae Adran 177A (4) o Ddeddf Trwyddedu 2003 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cerddoriaeth Fyw 2012) yn gymwys. Yr amodau yw:

**2HO1** Ar adegau pan ddarperir adloniant rheoledig o fewn y safle, bydd goruchwylwyr drysau ar ddyletswydd o 21:00 tan gau'r safle.

**2H09** Ar bob adeg pan ddarperir adloniant rheoledig, bydd staff / goruchwylwyr drws yn patrolio rhannau allanol y safle bob 30 munud.

**3H06** Bydd yr holl ffenestri yn cael eu cadw ar gau a bydd yr holl ddrysau o fewn y safle yn cael eu cadw ar gau, ac eithrio ar gyfer cael mynediad, a hynny ar bob adeg pan ddarperir adloniant rheoledig ar y safle.

**3H08** Bydd y Goruchwylydd Safle Dynodedig yn sicrhau nad oes unrhyw niwsans yn cael ei achosi gan sŵn sy'n deillio o'r safle neu drwy ddirgryniad a drosglwyddir trwy strwythur y safle.

Ar ôl 23:00 o'r gloch ni fydd alcohol yn yr ardd gwrw ac ar y penwythnos (dydd Gwener a Sadwrn), bydd o leiaf 2 oruchwyliwr drws cofrestredig Awdurdod y Diwydiant Diogelwch yn bresennol wrth allanfa'r ardd gwrw.

Ni chaniateir i unrhyw ddiodydd adael y safle a dylid arddangos arwyddion clir ar ddrysau ymadael y safle yn tynnu sylw cwsmeriaid at hyn.

**Ymgynghoriad**

**Gweithredir gan:** 18 Medi 2019

**Amserlen Weithredu:** Ar unwaith